

Cynllun Gweithredu: CEM Abertawe

Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu: 5 Mawrth 2018

Ymateb i Arolygiad HMIP a gynhaliwyd ar 7, 8, 14-17 Awst 2017

Cyhoeddwyd yr Adroddiad: 4 Ionawr 2018

CYFLWYNIAD

Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMIP) yn arolygiaeth annibynnol sy'n craffu'r amodau ar gyfer carcharorion a sut y cânt eu trin. Maent yn adrodd eu canfyddiadau am garchardai a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ar draws Cymru a Lloegr i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder (MOJ) a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS). Wrth ymateb i'r adroddiad, mae gofyn i HMPPS / MOJ ddrafftio cynllun gweithredu cadarn ac amserol er mwyn rhoi sylw i'r argymhellion. Mae'r cynllun gweithredu yn cadarnhau a gytunir â'r argymhellion, a gytunir â nhw'n rhannol neu a oes diffyg cytundeb yn eu cylch (gweler y categoriadau isod). Pan gytunir ar argymhelliad neu pan gytunir ar argymhelliad yn rhannol, bydd y cynllun gweithredu yn cynnig camau a gweithredoedd penodol er mwyn rhoi sylw i'r rhain. Mae gweithredoedd yn glir, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy ac yn berthnasol, a nodir perchennog pob cam a'r amserlen ar ei gyfer mewn ffordd glir. Anfonir cynlluniau gweithredu at HMIP ac fe'u cyhoeddir ar gyfleuster Chwilio am Garchar HMPPS ar y we. Yn ogystal, caiff y cynnydd a gaiff ei sicrhau yn erbyn gweithredu a chyflawni'r cynlluniau gweithredu ei fonitro, ac adroddir amdano.

Term	Diffiniad	Sylw ychwanegol
Cytunir	Cytunir â'r holl argymhelliad, mae modd ei gyflawni ac mae'n fforddiadwy.	Dylai'r ymateb esbonio mewn ffordd glir sut y cyflawnir yr argymhelliad, ynghyd ag amserlenni. Dylai'r camau gweithredu fod mor CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol) ag y bo modd. Dylai'r camau gweithredu fod yn ddigon penodol er mwyn gallu olrhain y cynnydd yn eu herbyn.
Cytunir yn Rhannol	Dim ond rhan o'r argymhelliad y cytunir ag ef, y mae'n gyraeddadwy, yn fforddiadwy ac y caiff ei weithredu. Gallai hyn fod oherwydd na allwn weithredu'r argymhelliad cyfan am resymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd.	Rhaid i'r ymateb nodi mewn ffordd glir pa ran o'r argymhelliad a weithredir, ynghyd â chymau gweithredu CAMPUS a chynnydd a gaiff ei olrhain. Rhaid bod esboniad o'r rheswm pam na allwn gytuno ar yr argymhelliad yn llawn – rhaid i hyn nodi'n glir a yw o ganlyniad i resymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd.
Nis Cytunir	Ni chytunir â'r argymhelliad ac ni chaiff ei weithredu. Efallai bod hyn oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd.	Rhaid i'r ymateb nodi'n glir pam ein bod wedi gwneud y dewis hwn. Rhaid bod esboniad o'r rheswm pam na allwn gytuno ar yr argymhelliad – rhaid i hyn nodi'n glir a yw o ganlyniad i resymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd.

CYNLLUN GWEITHREDU – ADRODDIAD HMCIP

SEFYDLIAD: CEM ABERTAWE

1. Rhif yr Arg.	2. Argymhelliad	3. Cytunir / Cytunir yn Rhannol / Nis Cytunir	4. Ymateb Camau a Gymrwyd/Cynlluniwyd	5. Swyddogaeth sy'n Gyfrifol / Arweinydd Polisi	6. Dyddiad Targed
	Prif argymhellion i'r Llywodraethwr				
5.1	Dylai pob carcharor newydd sy'n cyrraedd gael cyfweiliad preifat er mwyn helpu i nodi risg a'r duedd o fod yn agored i niwed, a dylid dilyn hyn gyda chymorth systematig yn ystod eu diwrnodau cynnar yn y carchar. Dylai fod cymorth trwyadl i garcharorion y nodir eu bod mewn perygl o niweidio'u hunain a dylid gweithredu argymhellion yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf yn llawn. (S43)	Cytunir	<p>Bydd y Pennaeth Preswyllo a Diogelwch yn gweithredu'r agweddau ar argymhellion yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf y mae'n gyfrifol amdanynt yn uniongyrchol, a bydd yn cynorthwyo partneriaid i weithredu ar sail yr argymhellion pan na fydd y rhain o fewn rheolaeth uniongyrchol y Carchar. Bydd Cyfarfodydd Dalfa Mwy Diogel yn sicrhau y caiff cynnydd ei fonitro mewn ffordd drylwyr ac y rhoddir sylw i unrhyw faterion sy'n ymwneud â gweithredu mewn ffordd effeithiol ac ar y cyd.</p> <p>Cyfwelir pob carcharor newydd mewn swyddfa breifat wrth y Dderbynfa er mwyn cwblhau'r Asesiad Risg Noson Gyntaf, ac ar wahân ar gyfer yr asesiad Sgrinio Iechyd Noson Gyntaf.</p> <p>Yn ystod y dyddiau cynnar yn y ddalfa, cedwir carcharorion yn yr Adain Ymsefydlu er mwyn sicrhau bod gweithgarwch Sgrinio Dalfa Sylfaenol, gweithgarwch ymsefydlu llawn y carchar a gweithgarwch Ymsefydlu Dysgu a Sgiliau yn cael ei gwblhau.</p> <p>Am y 72 awr gyntaf, bydd Staff y Carchar yn codi lefelau arsylwi yn ystod patrôl. Gwneir hyn bob awr tan canol nos, yna bydd yn lleihau i dri arsylwad rhwng 12:00 a 06:00.</p> <p>Caiff carcharorion sydd mewn perygl o niweidio'u hunain eu cynorthwyo gan y broses Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm (ACCT) a byddant yn cael adolygiadau amlddisgyblaethol o fewn y 24 awr gyntaf a phan fyddant yn barod i symud lleoliad.</p>	Llywodraethwr	<p>Ebrill 2018</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

5.2	Dylai carcharorion gael dillad, dillad gwely a thywelion digonol ac o ansawdd da bob wythnos. (S44, ailadrodd argymhelliad 2.7)	Cytunir	<p>Bydd y Pennaeth Sicrwydd Busnes yn sicrhau bod modd i garcharorion gael dillad, dillad gwely a thywelion gweddus bob amser, gan gynnal archwiliadau rheoli wythnosol er mwyn monitro safonau.</p> <p>Adolygwyd y prosesau er mwyn cyfnewid dillad i'w golchi a chytunwyd ar broses newydd rhwng y carchar a'r Contractwr Rheoli Cyfleusterau.</p> <p>Codwyd y cyflenwadau lleiaf o ran pob eitem golchi dillad, fel bod swm digonol ar gael bob amser ar gyfer wythnos o gyflenwad.</p> <p>Darparir dwy set o ddillad, saith set o ddillad isaf, dau dywel, dwy gynfas a gorchudd gobennydd a blanced i bob carcharor pan fyddant yn Cyrraedd. Bydd carcharorion yn gallu cyfnewid yr eitemau hyn bob wythnos yn unigol. Byddant yn gallu golchi a chadw eu dillad isaf yng ngolchdy yr adain.</p> <p>Codwyd materion ynghylch cyflenwad trwy'r Pennaeth Sicrwydd Busnes i broses gwyno y Contractwr Rheoli Cyfleusterau. Mae hyn wedi arwain at ffocws ar brosesau rheoli gwell yn y cyflenwadau Golchi Dillad er mwyn sicrhau y cynhelir cyflenwadau. Mae'r canlyniadau wedi arwain at ddatrys y materion a nodwyd gan yr Arolygydd.</p>	Llywodraethwr	Cwblhawyd
5.3	Dylai rheolwyr sicrhau bod carcharorion yn cael eu datgloi a'u bod yn cymryd rhan mewn gweithgarwch adeiladol yn ystod y diwrnod gwaith, ac y rhoddir sylw cyson i bresenoldeb gwael. Dylai nifer, amrediad ac ansawdd yr addysg, yr hyfforddiant a'r gweithleoedd fod yn ddigonol er mwyn cynnig cyfleoedd realistig i garcharorion wella'u rhagolygon o sicrhau cyflogaeth. (S45)	Cytunir	<p>Mae'r Pennaeth Dysgu a Sgiliau a'r Pennaeth Lleihau Aildroseddu wedi ymrwmo i sicrhau bod modd i garcharorion droi at weithgareddau perthnasol, defnyddiol ac o ansawdd uchel yn gyson ac yn ddyddiol, a bod unrhyw ddiffyg presenoldeb gan garcharor yn cael ei herio mewn ffordd adeiladol. Cynhelir archwiliadau dyddiol gan reolwyr o'r presenoldeb mewn gweithgareddau, gan gynnwys ar lefel Tim Rheoli Uwch, a gynorthwyr gan Ganolfan Weithgareddau. Bydd honno yn cofnodi'r holl absenoldebau, a disgwylir iddi gael ei chwblhau (erbyn Ebrill 2018) trwy gyfrwng cronfa ddata ganolog.</p> <p>Mae pob achos o ddiffyg presenoldeb heb reswm derbynol yn arwain at rybudd dan y polisi Cymhellion a Breintiau a Enillir (IEP), a bydd dau rybudd yn arwain at adolygiad o statws cyfredol y carcharor. Bydd gwrthod gweithio yn barhaus yn golygu y bydd yn rhaid i'r carcharor dreulio cyfnod ar gyfundrefn sylfaenol, a'u llwybr allan o'r gyfundrefn sylfaenol fydd ymgysylltu â gwaith neu addysg. Bydd diffyg</p>	Llywodraethwr	Ebrill 2018 Cwblhawyd

			<p>presenoldeb parhaus yn arwain at ganlyniadau i'r carcharor megis israddio i lefelau Sylfaenol a cholli tâl.</p> <p>Mae adolygiad llawn o'r holl ddarpariaeth Dysgu a Sgiliau eisoes wedi cychwyn, ar sail dadansoddiad o anghenion cyflogwyr lleol. Caiff sawl Gweithdy eu hadfywio er mwyn adlewyrchu gweithleoedd modern ac anghenion cyflogaeth lleol yn well, gan wella ansawdd a chyfanswm y ddarpariaeth. Mae hyn yn rhan o adolygiad o'r ddarpariaeth Dysgu, Sgiliau a Chyflogadwyedd a gynhelir ar draws y rhanbarth yng Ngharchardai'r Sector Cyhoeddus yn Ne Cymru.</p>		Medi 2018
	Prif argymhelliad i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, HMPPS a'r Llywodraethwr				
5.4	<p>Dylai strategaeth a chynllun gweithredu lleihau aildroseddu wedi'u diweddarau adlewyrchu anghenion adsefydlu ac ymddygiad troseddu pob carcharor, gan gynnwys y rhai y mae eu dedfrydau yn fyr a'r rhai ar remând. Dylai rheolwyr lleol a chenedlaethol sicrhau bod digon o staff yn yr uned rheoli troseddwy'r er mwyn cynorthwyo carcharorion trwy'r ddedfryd. Dylai'r dull gweithredu strategol sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i leihau nifer uchel y dynion sy'n cael eu rhyddhau heb lety cynaliadwy mewn ffordd sylweddol, gan gynnwys cymorth gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder er mwyn rhoi sylw i achosion sylfaenol y broblem. (S46)</p>	Cytunir yn Rhannol	<p>Mae CEM Abertawe yn cydnabod pwysigrwydd tai sefydlog wrth i garcharorion adsefydlu yn y gymuned a bydd yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ar y mater hwn. Bydd y carchar yn parhau i weithio gyda phartneriaid, megis yr Awdurdod Lleol a Chwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC) Cymru er mwyn sicrhau bod y cymorth adsefydlu i unigolion yn gadarn.</p> <p>Datblygir strategaeth Lleihau Aildroseddu newydd wedi'i seilio ar anghenion er mwyn rhoi sylw i ddarpariaeth y llwybr i'r holl garcharorion yng ngofal CEM Abertawe. Bydd y strategaeth yn mabwysiadu dull gweithredu holistig wrth alluogi ymatal, gan ddechrau gyda'r ymyriadau a'r cymorth sydd ar gael yn y ddalfa ac wrth symud i gynlluniau rhyddhau â chymorth. Bydd cerrig milltir nodedig yn cynnwys, gwella canlyniadau llety cynaliadwy i'r rhai sy'n cael eu rhyddhau; trwy weithio gyda'r Awdurdod Lleol a grwpiau cymorth cymunedol trwy'r CRC i ddarparu cymorth.</p> <p>Bydd y Model Rheoli Troseddwy'r yn y Ddalfa (OMiC) yn darparu adnodd ychwanegol y cynllun Gweithiwr Allweddol. Bydd y staff hyn yn ymgymryd â rôl cefnogi /hyfforddi a byddant yn gallu cael cyswllt â'r CRC's. Bydd y model OMiC newydd yn sicrhau bod pob carcharor yn Abertawe yn cael cymorth digonol gan eu Rheolwyr Troseddwy'r.</p>	<p>Cyfarwyddwr Gweithredol HMPPS Cymru</p> <p>Llywodraethwr</p> <p>Cyfarwyddwr Gweithredol HMPPS Cymru</p>	<p>Cwblhawyd ac yn Parhau</p> <p>Gorffennaf 2018</p> <p>Gorffennaf 2018</p>

	Argymhelliad i HMPPS a'r Llywodraethwr				
5.5	Dylid diwygio'r offeryn monitro cydraddoldeb cenedlaethol fel nad yw'r data yn fwy na mis oed. Dylai'r tîm cydraddoldeb ystyried gwahaniaethau, dylai ymchwilio iddynt yn drylwyr a rhoi sylw iddynt. (2.23)	Cytunir yn rhannol	<p>Bydd y Tîm Cydraddoldeb yn monitro data lleol cyfoes sydd ar gael iddynt, gan sicrhau y rhoddir sylw i unrhyw wahaniaethau. Cytunir yn rhannol ar yr argymhelliad hwn o ganlyniad i'r amser sy'n ofynnol er mwyn prosesu'r data ar ddiwedd pob mis, a'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd, ac ni ddarparir y data cyn pen mis. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaethau Dadansoddol Carchardai a Phrawf yn adolygu'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr EMT a'i hamlder, a bydd yn cynnwys sylwadau'r Arolygiaeth fel rhan o'r adolygiad. Fel rhan o adolygiad Lammy (adolygiad annibynnol o'r driniaeth a gaiff unigolion Duon, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig (BAME) yn y System Cyfiawnder Troseddol, a'r canlyniadau ar eu cyfer), caiff data ei graffu ymhellach er mwyn cael rhai o'r meysydd data newydd megis Defnyddio Grym (UoF) yn ganolog ym mis Ebrill 2018.</p> <p>Bydd yr agenda ar gyfer y cyfarfod Cydraddoldeb Misol yn cynnwys adroddiadau am bob agwedd ar fywyd yn y carchar megis cyflogaeth, IEP, Cwynion, Ffurflenni Adrodd am Ddigwyddiadau Gwahaniaethu (DIRFs), Dyfarnu, UoF a Phresenoldeb yn y Gampfa a demograffeg yr Uned Breswyl. Yn lleol, gyda chymorth y Grŵp Cydraddoldeb, Ymyriadau ac Ymarfer Gweithredol (EIOPG), bydd y carchar yn parhau i ddadansoddi data er mwyn cyfrannu at arfer. Bydd y Pennaeth Preswyl a Gwasanaethau yn clustnodi adnoddau digonol er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion a/neu wahaniaethau sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn cael eu hymchwilio a bod sylw'n cael ei roi iddynt. Ni chaiff yr adnodd staff a ddarparir er mwyn cynorthwyo'r gwaith hwn ei ddargyfeirio er mwyn cynnwys dyletswyddau eraill, ac eithrio mewn argyfwng gweithredol.</p>	Cyfarwyddwr Gweithredol Adsefydlu a Sicrwydd - HMPPS	Mehefin 2018
				Llywodraethwr	Ebrill 2018
	Argymhellion i'r Llywodraethwr				
	Dyddiau cynnar yn y ddalfa				
5.6	Dylid lleoli pob carcharor newydd mewn amgylchedd cefnogol a digyffro, lle y gallant amgyffred gwybodaeth a chael help i setlo yn y carchar. (1.11)	Cytunir	Bydd CEM Abertawe yn sicrhau bod y Ganolfan Noson Gyntaf yn fan diogel, digyffro a chefnogol lle y caiff carcharorion y cyfleoedd a'r cymorth y mae eu hangen arnynt er mwyn addasu i amgylchedd y carchar. Mae CEM Abertawe wedi	Llywodraethwr	Cwblhawyd

			<p>adolygu'r boblogaeth yn yr adain ymsefydlu sylfaenol er mwyn sicrhau bod yr holl garcharorion newydd yn cael profiad sefydlog a chefnogol, gan gynnwys mynediad digonol i Wrandawyr a ffurfiau cymorth eraill.</p> <p>Bydd CEM Abertawe yn adolygu ac yn diwygio sut y darparir gwybodaeth i garcharorion newydd er mwyn sicrhau bod modd iddynt gael atebion cadarn, hygoel a chynhwysfawr i unrhyw gwestiynau.</p> <p>Mae CEM Abertawe wedi adolygu'r llety yn y carchar er mwyn nodi'r lle gorau i ddal carcharorion sydd newydd gyrraedd. Caiff y carchar ei ad-drefnu mewn ffordd briodol er mwyn rhoi sylw i hyn fel blaenoriaeth, er mwyn sicrhau bod profiad mwy diogel i garcharorion newydd.</p>	Llywodraethwr	Ebrill 2018
				Llywodraethwr	Gorffennaf 2018
5.7	Dylai pob carcharor gael rhaglen ymsefydlu lawn sy'n bodloni eu hanghenion. (1.12)	Cytunir	<p>Mae'r Pennaeth Preswyllo a Diogelwch wedi darparu proses ymsefydlu gynhwysfawr ac y mae ei hansawdd yn cael ei sicrhau er mwyn gwneud yn siŵr y bodlonir anghenion carcharorion sydd newydd gyrraedd, yn enwedig y rhai nad ydynt wedi treulio cyfnod yn CEM Abertawe yn flaenorol.</p> <p>Caiff y broses ymsefydlu ei theilwra ar gyfer carcharorion sydd ag anhawster dysgu neu broblemau iaith, er mwyn bodloni eu hanghenion nhw, trwy ddefnyddio amrediad o ddulliau amgen megis mentora cymheiriaid dan drefniant un i un, gwasanaethau cyfieithu a datrysiadau priodol eraill er mwyn sicrhau bod negeseuon allweddol am yr hyn y gall carcharorion ei ddisgwyl yn y carchar a'r hyn y mae'r carchar yn ei ddisgwyl ganddyn nhw, yn cael eu deall.</p> <p>Bydd y Pennaeth Preswyllo a Diogelwch yn Sicrhau Ansawdd y broses Ymsefydlu, gan adrodd yn fisol i'r Dirprwy Lywodraethwr am nifer y sesiynau ymsefydlu a gwblhawyd a'r camau a gymrwyd os bydd y carcharor yn gwrthod ymgysylltu â'r broses.</p>	Llywodraethwr	Cwblhawyd
				Llywodraethwr	Mai 2018
				Llywodraethwr	Ebrill 2018
	Lleihau bwlio a thrais				
5.8	Dylid cofnodi pob achos o drais, bwlio a defnyddio grym, dylid ymchwilio iddynt yn drylwyr, a dylid cymryd camau priodol yn eu cylch. Dylid cynorthwyo dioddefwyr. (1.17)	Cytunir	Bydd CEM Abertawe yn sicrhau bod y carchar yn lle diogel i'r holl staff a'r carcharorion. Cofnodir pob achos o drais yn System Adrodd Digwyddiadau y Gwasanaethau Carchardai gan Swyddog y Dydd ar y diwrnod pan fydd yn digwydd, ac yn y deunydd briffio i'r Llywodraethwr gan y Llywodraethwr ar Ddyletswydd ar gyfer y diwrnod dilynol. Bydd y Pennaeth	Llywodraethwr	Cwblhawyd

			<p>Diogelwch yn croeswiro bod digwyddiadau trais wedi cael eu cofnodi mewn ffordd gadarn yn y systemau priodol. Caiff unrhyw anghysondebau neu fylchau eu huwchgyfeirio i aelod o'r Tîm Rheoli Uwch er mwyn gweithredu yn eu cylch.</p> <p>Adolygir pob digwyddiad pan fydd staff yn defnyddio grym ar garcharorion gan banel o staff a gadeirir gan y Pennaeth Gweithrediadau, er mwyn sicrhau bod modd cyfiawnhau pob digwyddiad ac y bu'r defnydd o rym yn briodol. Pan nad yw'n ymddangos y bu'r defnydd o rym yn briodol, bydd y Pennaeth Gweithrediadau yn gwneud cyfeiriad i'r Dirprwy Lywodraethwr, er mwyn iddo ef ystyried a ddylid ymchwilio iddo trwy gyfrwng ymchwiliad disgyblu.</p> <p>Bydd CEM Abertawe yn sicrhau y dysgir gwersi o bob digwyddiad, ac y gwrandawir ar ddioddefwyr, a'u bod yn cael cymorth sensitif a gofalgar. Bydd y tîm Dalfa mwy Diogel, gyda chymorth arbenigol Tîm Rhanbarthol newydd, yn ymchwilio i'r holl ddiwyddiadau o drais a honiadau ynghylch bwlio. Gwneir trefniadau rheoli achosion er mwyn cynorthwyo dioddefwyr a herio cyflawnwyr.</p>	Llywodraethwr	Cwblhawyd
	Hunan-niwed a hunanladdiad			Llywodraethwr	Mai 2018
5.9	Dylid seilio'r strategaeth er mwyn atal hunan-niwed ar ddadansoddi gwybodaeth ynghylch natur digwyddiadau, patrymau a thueddiadau. Dylai'r cyfarfod dalfa mwy diogel ei goruchwyllo mewn ffordd drylwyr (1.24)	Cytunir	<p>Bydd y Pennaeth Preswyllo a Diogelwch yn dwyn ynghyd tîm aml-ddisgyblaethol (gan gynnwys Gwasanaethau Seicolegol Fforensig, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r tîm Dalfa mwy Diogel rhanbarthol) i ddatblygu Strategaeth Lleihau Hunan-niwed gynhwysfawr.</p> <p>Mae CEM Abertawe yn adolygu ac yn dadansoddi data tymor hir er mwyn deall achosion sylfaenol hunan-niwed yn well, gan sicrhau y rhoddir sylw i'r rhain trwy'r strategaeth. Bydd hyn yn cyd-fynd â dadansoddiad parhaus cadarn o ddata hunan-niwed.</p> <p>Cadeirir y Cyfarfod Dalfa mwy Diogel misol gan y Llywodraethwr neu'r Dirprwy Lywodraethwr a chaiff cynnydd ei fonitro mewn ffordd gadarn yn erbyn y Strategaeth, gan weithredu yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod yr holl gamau perthnasol yn cael eu cymryd i roi sylw i achosion hunan-niwed.</p>	Llywodraethwr	Ebrill 2018
				Llywodraethwr	Cwblhawyd
				Llywodraethwr	Cwblhawyd

5.10	Dylai celloedd gwyllo cyson gynnig amgylchedd glân a gweddus ar gyfer carcharorion mewn argyfwng. (1.25)	Cytunir	Mae'r Pennaeth Preswyllo a Diogelwch wedi gweithredu i sicrhau bod y gell Arsylwi Cyson yn lân, yn weddus ac wedi'i hofferu'n dda. Darparir sicrwydd parhaus yn ystod y cyfarfod Perfformiad wythnosol.	Llywodraethwr	Cwblhawyd
5.11	Dylai'r cyfarfod dalfa mwy diogel ddarganfod pam bod cymaint o garcharorion yn teimlo na allant siarad â Gwrandawr pan fydd angen iddynt wneud hynny, gan ymchwilio i bryderon a adroddir gan y Gwrandawyr. (1.26)	Cytunir	Comisiynir adolygiad o'r gwasanaeth Gwrandawyr er mwyn canfod unrhyw faterion neu rwystrau tybiedig sy'n atal carcharorion rhag troi at Wrandawyr pan fydd angen iddynt wneud hynny ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos. Bydd yr adolygiad yn ymgynghori â Gwrandawyr, Defnyddwyr Gwasanaeth a Staff er mwyn nodi unrhyw ffactorau diwylliannol, ymarferol neu weithdrefnol sy'n atal y gwasanaeth rhag gweithio, a gwneud argymhellion er mwyn gwaredu rhwystrau o'r fath.	Llywodraethwr	Ebrill 2018
	Diogelu				
5.12	Dylid datblygu a gweithredu polisi diogelu. Dylai'r holl staff gael hyfforddiant ynghylch gweithdrefnau diogelu a dylent fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. (1.28)	Cytunir	Bydd y Pennaeth Preswyllo a Diogelwch yn CEM Abertawe yn rhagweithiol wrth ddiogelu a hyrwyddo lles er mwyn lleihau niwed a chreu amgylchedd diogel, gweddus a charedig. Bydd CEM Abertawe yn darparu polisi a strwythur i staff ac asiantaethau partner, i weithio ar yr un pryd ac mewn ffordd ataliol, er mwyn cynnig gwasanaeth o ansawdd i bobl agored i niwed. Bydd staff y carchar yn cael hyfforddiant fel eu bod yn deall eu dyletswydd gofal o dan y gyfraith gyffredin tuag at garcharorion, sy'n cynnwys cymryd camau priodol i'w diogelu.	Llywodraethwr	Gorffennaf 2018
	Diogelwch				
5.13	Dylai'r carchar feddu ar ddull gweithredu integredig tuag at leihau'r galw am gyffuriau yn y sefydliad a'u cyflenwad. Dylai mesurau lleihau'r cyflenwad gynnwys rhaglen orfodol er mwyn cynnal profion cyffuriau sy'n manteisio ar adnoddau digonol, ac sy'n sicrhau lefel ofynnol y gwaith profi a dargedir a bod yr holl brofion amheuaeth ac archwiliadau targed y gofynnir amdanynt yn cael eu cwblhau. (1.36)	Cytunir	Bydd gan y Pennaeth Lleihau Aildroseddu ddull gweithredu trylwyr a chynhwysfawr er mwyn rhoi sylw i'r galw am gyffuriau a'u cyflenwad, gan weithio gydag ystod amrywiol o bartneriaid a chynorthwyo dull gweithredu holistig ar draws carchardai a'r gwasanaeth prawf. Bydd hyn yn rhan o ddull gweithredu strategol ranbarthol gyffredinol a fydd yn rhoi sylw i gamddefnyddio cyffuriau. Cynhelir archwiliadau targed wedi'u seilio ar dystiolaeth yn ddyddiol mewn Unedau Preswyl. Er mwyn mynd i'r afael ymhellach â chyflenwad cyffuriau, bydd Graddau Cymorth	Llywodraethwr Llywodraethwr	Medi 2018 Medi 2018

			Gweithredol yn patrolio'r amderfyn allanol yn ystod cyfnodau symud er mwyn atal aelodau'r cyhoedd rhag dod â nwyddau gwaharddedig neu becynnau dieithr i mewn i'r carchar. Maent wedi penodi Un Pwynt Cyswllt (SPOC) i reoli cyfeiriadau i'r Heddlu er mwyn lleihau lefelau troseddau mewn carchardai.		
5.14	Dylai mesurau diogelwch fod yn gymesur. Dim ond pan fydd y penderfyniad yn cael ei gefnogi gan gudd-wybodaeth y dylid cynnal noeth-chwiliadau. Dylai ymweliadau caeëdig fod ar gyfer gweithgarwch sy'n ymwneud ag ymweliadau, a dylid codi cyfyngiadau yn ystod adolygiadau misol os na fydd cudd-wybodaeth yn eu cefnogi mwyach. (1.37)	Cytunir yn Rhannol	<p>Dim ond yn rhannol y cytunir ar yr argymhelliad hwn gan bod Swyddogaeth 3.1 Fframwaith Diogelwch Cenedlaethol Chwilio'r Person, (PSI 67/2011), yn mynnu bod carcharorion gwrywaidd y tu allan i'r ystad diogelwch uchel yn cael chwiliad llawn fel mater o drefn ar ôl iddynt gyrraedd y carchar y tro cyntaf, ar ôl iddynt ddychwelyd o gael eu rhyddhau dan drwydded dros dro (ROTL) neu grŵp gwaith y tu allan (carchardai caeëdig yn unig), ar ôl dychwelyd o gyfnod dan hebryngiad heb fod yn y carchar, wrth drosglwyddo i garchar arall a'r holl achosion rhyddhau eraill ac eithrio rhyddhau terfynol a rhyddhau ar gyfer ROTL. Rhaid i bob carchar gydymffurfio â gofynion sylfaenol PSI's. Cynhelir asesiadau risg lleol mewn amgylchiadau eraill. Mae strategaeth diogelwch lleol CEM Abertawe yn cydymffurfio â'r PSI ar gyfer carcharorion gwrywaidd y tu allan i'r ystad diogelwch uchel i gynnwys chwiliad llawn wrth eu rhyddhau ac yn dilyn ymweliadau.</p> <p>Defnyddir cudd-wybodaeth briodol, fel yr amlinellir yn PSI15/2011- 'Rheolaeth a Diogelwch yn ystod Ymweliadau' er mwyn cynnig sylfaen i'r holl benderfyniadau a wneir yn CEM Abertawe ynghylch defnyddio ac adolygu ymweliadau caeëdig. Adolygir ymweliadau caeëdig yn rheolaidd, ac ni chânt eu parhau oni bai bod y risg yn amlwg o hyd.</p>	Cyfarwyddwr Gweithredol Diogelwch, Trefn a Gwrthderfysgaeth /	Cwblhawyd
	Cymhellion a breintiau a enillir			Llywodraethwr	Cwblhawyd
5.15	Dylai'r cynllun cymhellion a breintiau a enillir gynnig cymhellion ar gyfer ymddygiad da a dylai gynnwys targedau unigol ac ystyrion. Dylid rheoli'r rhai ar lefel sylfaenol mewn ffordd gyson. (1.40)	Cytunir	Bydd y Pennaeth Preswyllo a Gwasanaethau yn sicrhau bod y cynllun Cymhellion a Breintiau a Enillir (IEP) yn gwobrwyo ymddygiad da mewn ffordd effeithiol, gan helpu carcharorion i bennu nodau unigol ystyrion a chyraeddadwy. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r carchar wedi cwblhau adolygiad o'r cynllun IEP trwy ymgynghori â charcharorion, staff, carcharorion a phartneriaid, sy'n adlewyrchu'r polisi cenedlaethol ynghylch lleihau trais. Gweithredir y camau gweithredu o'r adolygiad hwn erbyn diwedd mis Mawrth 2018.	Llywodraethwr	Cwblhawyd
	Disgyblaeth				

5.16	Dylid dadansoddi data ynghylch dyfarniadau fel mater o drefn er mwyn nodi patrymau sy'n dod i'r amlwg. Dylid ymchwilio i dueddiadau a dylid cymryd camau i roi sylw i bryderon. (1.45)	Cytunir	<p>Mae'r cyfarfod perfformiad wythnosol yn dadansoddi dyfarniadau a gododd yn ystod y saith niwrnod diwethaf, gan amlgu tueddiadau a phatrymau o ran natur troseddau, ardaloedd lle y mae troseddau'n digwydd a demograffeg y staff a'r carcharorion dan sylw. Trafodir unrhyw feysydd sy'n peri pryder a chytunir ar gamau gweithredu er mwyn lleihau'r risg gymaint ag y bo modd.</p> <p>Bydd y Pennaeth Preswyllo a Diogelwch yn sicrhau bod data ynghylch dyfarniadau yn cael ei ddadansoddi bob mis fel bod modd nodi a gweithredu ynghylch unrhyw dueddiadau.</p>	Llywodraethwr	Cwblhawyd
5.17	Dylid cyflwyno gweithdrefn sicrhau ansawdd dyfarniadau. (1.46)	Cytunir	<p>Bydd y Pennaeth Preswyllo a Diogelwch yn sicrhau bod yr holl ddyfarniadau yn CEM Abertawe yn gyfiawn, yn deg a bod eu hansawdd yn cael ei sicrhau mewn ffordd gadarn. Cynhelir archwiliadau sicrhau ansawdd o isafswm o 10% o ddyfarniadau bob mis. Bydd cyfarfod adolygu Tariff chwarterol y carchar yn cynnwys elfen sicrhau ansawdd gan ddefnyddio adolygiadau cymheiriaid i nodi arfer da a gwael. Yn ogystal, bydd tîm Cyfarwyddwr Carchardai y Sector Cyhoeddus yn Ne Cymru yn cynnwys dyfarniadau o fewn cwmpas eu hymweliadau sicrhau rheolaidd.</p>	Llywodraethwr	Ebrill 2018
5.18	Dylai'r gwaith o ddadansoddi data ynghylch defnyddio grym gynnwys yr holl ffactorau perthnasol er mwyn monitro tueddiadau ac er mwyn gallu ymateb i fygythiadau sy'n dod i'r amlwg mewn ffordd ragweithiol. (1.52)	Cytunir	<p>Bydd y Pennaeth Preswyllo a Diogelwch yn sicrhau bod modd cyfiawnhau pob digwyddiad lle y defnyddir grym, eu bod yn gymesur ac yn cael eu hadolygu mewn ffordd gadarn.</p> <p>Bob wythnos, bydd panel o staff dan gadeiryddiaeth y Pennaeth Gweithrediadau yn adolygu pob digwyddiad lle y bydd staff yn defnyddio grym ar garcharorion. Yn ogystal, gwahoddir aelod o'r IMB i'r adolygiadau hyn o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau annibyniaeth ac er mwyn sicrhau bod modd cyfiawnhau pob digwyddiad ac y bu'r Defnydd o Rym (UOF) yn briodol. Pan na fydd UOF yn ymddangos yn briodol, bydd y Pennaeth Preswyllo a Diogelwch yn gwneud cyfeiriad i'r Dirprwy Lywodraethwr, er mwyn iddo ef ystyried ymchwilio iddo trwy gynnal ymchwiliad disgyblu.</p> <p>Rhennir y gwersi a ddysgir gyda staff a defnyddir enghreifftiau o arfer da yn ystod hyfforddiant er mwyn sicrhau bod staff yn cael yr arweiniad y mae angen iddynt ei gael er mwyn defnyddio grym mewn ffordd gymesur a chyfiawnadwy.</p>	Llywodraethwr	Ebrill 2018

5.19	Dylai cynlluniau gofal unigol fod mewn grym ar gyfer yr holl garcharorion sy'n cael eu cadw ar wahân, a dylid rhoi ffocws clir ar risgiau a chynllunio ail-integreiddio llwyddiannus. (1.57)	Cytunir	<p>Bydd y Pennaeth Preswyllo a Diogelwch yn sicrhau bod unrhyw garcharor sy'n cael eu cadw ar wahân i'r boblogaeth gyffredinol yn cael cynllun cynhwysfawr er mwyn cynorthwyo gweithgarwch rheoli risg ac ail-integreiddio effeithiol.</p> <p>Bydd y tîm Dalfa mwy Diogel yn rheoli achos yr holl garcharorion a fydd yn cael eu cadw ar wahân dan Drefn Dda neu Ddisgyblaeth (GOOD) neu Garchariad mewn Cell, ar y cyd â seicoleg, tîm iechyd meddwl pan fo hynny'n briodol a'u Gweithiwr Allweddol. Bydd cynlluniau gofal yn nodi risgiau ac ysgogiadau unigol, targedau ymddygiad tymor byr a chynlluniau ail-integreiddio. Bydd y rheolwr preswyl ar gyfer yr ardal yn gyfrifol am reolaeth y cynllun.</p>	Llywodraethwr	Ebrill 2018
5.20	Ni ddylid cadw carcharorion yn yr uned arwahanu fel mater o drefn cyn eu dyfarniadau. (1.58)	Cytunir	<p>Bydd y Pennaeth Preswyllo a Diogelwch yn sicrhau mai dim ond mewn amgylchiadau arbennig iawn sy'n ymwneud â diogelwch unigolion neu er mwyn rhedeg y carchar cyfan mewn ffordd ddiogel a gweddus, y cedwir carcharorion yn yr Uned Arwahanu cyn dyfarniadau. Bydd yn rhaid i'r Llywodraethwr gymeradwyo unrhyw achosion o'r fath yn ffurfiol cyn y caiff unrhyw gamau eu cymryd, er mwyn sicrhau mai'r unig adegau y cedwir carcharorion ar wahân cyn dyfarniad yw pan fo hynny'n hollol angenrheidiol.</p> <p>Bydd carcharorion y byddant yn cael eu cadw ar wahân cyn dyfarniad yn cael cofnod ysgrifenedig o'r rheswm dros wneud hynny gan Reolwr Gweithredol. Bydd yn rhaid i Reolwyr Gweithredol gyfiawnhau i'r Llywodraethwr bod cadw rhywun ar wahân yn ddewis olaf er mwyn atal eraill rhag cael niwed ac er mwyn sicrhau bod y carchar yn cael ei redeg mewn ffordd ddiogel i'r un safon ar gyfer Trefn Dda neu Ddisgyblaeth.</p>	Llywodraethwr	Cwblhawyd
5.21	Dyllid cynnal cyfarfodydd monitro arwahanu yn rheolaidd, gydag aelodau craidd yn bresennol yn gyson a data yn cael ei ddadansoddi. (1.59)	Cytunir	<p>Bydd y Pennaeth Preswyllo a Diogelwch yn sicrhau y bydd y Grŵp Adolygu a Monitro Arwahanu (SMARG) yn cyfarfod bob chwarter, a bydd yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rheolwr Gweithredol/Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am yr uned arwahanu • Swyddog(ion) yr uned arwahanu • Gweithiwr allweddol (Swyddog Carchar) • Caplan • Aelod o'r Tîm Gofal Iechyd • Seicolegydd (pan fydd un ar gael) • Prawf a neu oruchwylydd troseddwy arall (yn enwedig pan fo'r carcharor o fewn cwmpas) 	Llywodraethwr	Ebrill 2018

			<p>gweithgarwch rheoli troseddwyd)</p> <ul style="list-style-type: none"> Rheolwr Dalfa mwy Diogel Aelod o IMB (mewn rôl arsylwr/monitor) <p>Amcan y cyfarfod yw sicrhau bod trefniadau monitro mewn grym er mwyn sicrhau bod carcharorion yn cael eu trin mewn ffordd deg a gweddus. Caiff y rhesymau cychwynnol a pharhaus dros arwahanu eu monitro fel na fydd carcharorion yn treulio mwy o amser nag y bydd angen ei dreulio ar wahân. Y nod yw dychwelyd carcharorion i lety arferol yn y carchar cyn gynted ag y bo modd. Cyflawnir hyn trwy sicrhau bod rôl monitro ac adolygu SMARG yn cael ei gyflawni trwy archwilio dogfennau'n barhaus a monitro ystadegau arwahanu</p>		
	Camddefnyddio sylweddau				
5.22	Dylai pob carcharor y mae ganddynt broblemau camddefnyddio sylweddau gael mynediad cyflym a pharhaus i ystod gynhwysfawr o gymorth seicogymdeithasol sy'n diwallu eu hanghenion a nodwyd. (1.69)	Cytunir	<p>Mae'r Pennaeth Lleihau Aildroseddu wedi ymrwymo i sicrhau bod ymddygiad troseddol sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau yn cael ei reoli mewn ffordd briodol a bod ymatal rhag trosedd yn cael ei hyrwyddo. Mewn achosion o'r fath, bydd cymorth arbenigol ar gael.</p> <p>Mae CEM Abertawe wedi datblygu darpariaeth lles trwy gyfrwng Canolfan Lles bwrpasol. Bydd y Ganolfan hon yn ganolfan ddarpariaeth ar gyfer partneriaid cymunedol ac yn y carchar i gyflawni cymorth seicogymdeithasol ar gyfer carcharorion a nodir ac sy'n hunangyfeirio, a bydd y ddarpariaeth yn cynnwys gwasanaethau megis Alcoholigion Anhysbys, Offer ar gyfer Newid, Lles a Dyfodol. Mae'r Ymddiriedolaeth Gofal a Chyngor Adsefydlu ac Ymatal (PACT) yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn ymgysylltu â'r cymorth a'r rheolaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau i garcharorion yn CEM Abertawe.</p>	Llywodraethwr	Cwblhawyd
5.23	Dylai pob carcharor sy'n diddyfnu oddi ar ddylanwad cyffuriau ac alcohol gael darpariaeth fonitro a rhagnodi gynhwysfawr yn ôl Camddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth, Canllawiau y DU ar Reolaeth Glinigol 2017. Dylai carcharorion sy'n parhau i gael darpariaeth amnewid opiadau o'r gymuned, gael adolygiadau rhagnodi rheolaidd. (1.70)	Cytunir	<p>Mae CEM Abertawe ac Abertawe Bro Morgannwg (ABMU) yn cydnabod pwysigrwydd darparu gofal clinigol priodol i garcharorion sy'n diddyfnu oddi ar sylweddau anghyfreithlon, a bod hyn yn hanfodol. Bydd HMPPS yng Nghymru yn gweithio gydag ABMU er mwyn sicrhau bod polisi camddefnyddio sylweddau clinigol Llywodraeth Cymru yn effeithiol ar lefel weithredol mewn ffordd glinigol ac mewn lleoliad gwarchodol. Bydd CEM Abertawe yn dilyn Camddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth, Canllawiau y DU ar Reolaeth Glinigol 2017. Cynhelir adolygiadau bob tri mis o garcharorion sy'n cael darpariaeth amnewid opiadau o'r</p>	Cyfarwyddwr Gweithredol HMPPS Cymru	Mai 2018

	Unedau preswyl		gymuned.		
5.24	Ni ddylai celloedd gynnwys mwy o garcharorion nag y cawsant eu dylunio i'w cadw. (2.9)	Nis Cytunir	<p>Fel rhan o drefniadau diwygio carchardai, y nod ar gyfer y tymor hir yw lleihau llenwi, gan gynnal capasiti digonol yn ystad y carchardai i reoli galwadau'r llysoedd a'r boblogaeth a ddedfrydir mewn ffordd mor effeithlon ag y bo modd. Adolygir y lefel hon yn gyson, gan ystyried newidiadau ym maint y boblogaeth mewn carchardai a chapasiti defnyddiadwy ar draws yr ystad. Mae'r carchar yn sicrhau y pennir y lefel capasiti gweithredol hon er mwyn adlewyrchu darpariaeth llety diogel a gweddus a gweithrediad gweithdrefnau addas, a bod lefelau llenwi mewn carchardai yn cael eu rheoli mewn ffordd ofalus.</p> <p>Pennir deiliadaeth celloedd carchardai gan Lywodraethwr pob sefydliad, a phan gynigir celloedd a gynlluniwyd fel rhai ar gyfer deiliaid unigol yn wreiddiol, fel celloedd i'w rhannu, caiff hyn ei gadarnhau gan y Cyfarwyddwr Grŵp Carchardai perthnasol yn unol â PSI 17/2012, sy'n cynnig canllawiau clir er mwyn pennu capasiti celloedd.</p>	Llywodraethwr	
5.25	Dylai glendid a chyflwr celloedd a safleoedd cymunol ym mhob adain fod o safon da. (2.10)	Cytunir	<p>Mae cynnal glendid o safon da a gweddus a chyflwr da yn hollbwysig i CEM Abertawe. Mae'r Pennaeth Preswyl a Gwasanaethau wedi drafftio polisi gwedduster newydd ac mae'n ymgynghori â staff a charcharorion. Bydd y polisi hwn yn nodi safonau glendid craidd a champau gweithredu er mwyn sicrhau bod y rhain yn cael eu cyflawni a'u cynnal. Gweithredir y polisi gwedduster newydd erbyn mis Ebrill 2018.</p> <p>Mae CEM Abertawe wedi gweithredu trefniant dyddiol er mwyn arolygu adenydd a chelloedd, er mwyn sicrhau y cynhelir safonau glendid. Cynorthwyr hyn trwy gyfrwng archwiliadau wythnosol a gynhelir gan y Llywodraethwr/Dirprwy Lywodraethwr. Bydd Rheolwyr Gweithredol yn cynnal archwiliadau dyddiol o lety fel rhan o ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r Llywodraethwr ar Ddyletswydd.</p> <p>Bydd y Pennaethiaid Preswyl a Rheolwr y Ganolfan Fusnes yn sicrhau bod offer a chynhyrchion glanhau digonol ar gael i garcharorion a staff er mwyn sicrhau y cynhelir safonau glendid. Cyflawnir hyn trwy weithredu system gofnodi lle y cytunir ar y safon ofynnol, fel bod yr holl gynhyrchion wastad</p>	<p>Llywodraethwr</p> <p>Llywodraethwr</p> <p>Llywodraethwr</p>	<p>Ebrill 2018</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Ebrill 2018</p>

			ar gael.		
5.26	Dylai fod modd i garcharorion wneud galwad ffôn bob dydd. (2.11)	Cytunir yn Rhannol	Mae modd i bob carcharor droi at y ffonau saith niwrnod yr wythnos oni bai bod rhesymau gweithredol yn effeithio ar y gyfundrefn. Mae hyn yn rhan o ddiwrnod craidd y carchar. Mae'r carchar yn ceisio lleihau unrhyw amhariad ar y gyfundrefn sy'n arwain at gael effaith ar ddynion yn cael amser digonol i wneud galwadau, gymaint ag y bo modd.	Llywodraethwr	Cwblhawyd
5.27	Dylid ateb clychau celloedd yn brydlon. (2.12)	Cytunir	Bydd y Pennaeth Preswyl a Gwasanaethau yn sicrhau yr atebir pob cloch cell cyn pen pum munud. Caiff y gyfradd ymateb ei monitro trwy'r system ffonio celloedd. Bydd y Pwyllgor Dalfa mwy Diogel yn monitro ac yn cofnodi hyn hefyd.	Llywodraethwr	Ebrill 2017
5.28	Dylid monitro'r system geisiadau er mwyn sicrhau bod ymatebion yn amserol ac yn cynnwys ffocws. (2.13)	Cytunir	Cytunwyd ar a gweithredir proses geisiadau newydd er mwyn sicrhau bod ymatebion i geisiadau yn amserol ac yn cynnwys ffocws. Bydd y Pennaeth Preswyl a'r Pennaeth Sicrwydd Busnes yn monitro'r broses newydd, gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r broses o'r dechrau i'r diwedd. Cedwir y cofnodion ysgrifenedig.	Llywodraethwr	Cwblhawyd
	Perthnasoedd rhwng staff a charcharorion				
5.29	Dylai staff ddarparu gofal a rheolaeth gyson dros garcharorion. Dylent herio ymddygiad amhriodol ac annog carcharorion i ymgysylltu â'r gyfundrefn. (2.16)	Cytunir	Bydd model Rheolaeth Troseddwr yn y Ddalfa (OMIC) yn cynnig cymorth ychwanegol i'r carcharorion a'r staff trwy gyfrwng rôl newydd y Gweithiwr Allweddol, sy'n eistedd o fewn disgrifiad swydd Swyddog Carchar Preswyl. Rôl y Gweithiwr Allweddol yw meithrin perthnasoedd adeiladol, cymhellol gyda charcharorion yn y carchar, a'u cynorthwyo i wneud dewisiadau priodol a rhoi gobaith a chyfrifoldeb iddynt dros eu datblygiad eu hunain trwy gyfrwng sesiynau gwaith allweddol un-i-un. Bydd hyn yn cynorthwyo gofal, rheolaeth ac ymgysylltu cadarn yn y carchar. Bydd pob Swyddog Carchar preswyl yn cynnal sesiynau gwaith allweddol gydag oddeutu chwe charcharor. Caiff adnoddau eu neilltuo ar gyfer 45 munud yr wythnos, fesul carcharor. Bydd gan bob carcharor sifil, remând ac a ddedfrydwyd Weithiwr Allweddol penodedig. Yn ogystal, wrth ail-broffilio dan fodel OMIC, bydd CEM Abertawe yn sicrhau cymhellion ychwanegol i'r dynion hynny sy'n ymgysylltu â'r gyfundrefn.	Cyfarwyddwr Gweithredol HMPPS Cymru Llywodraethwr	Gorffennaf 2018 Ebrill 2018

			<p>Mae CEM Abertawe yn datblygu dogfen Fframwaith Rheoli Ansawdd (QMF) sy'n nodi meysydd o anghysondeb ac sy'n creu proses y mae'n rhaid i staff ei dilyn er mwyn rhoi sylw i'r mater. Mae'r gwaith hwn wedi cychwyn wrth i nifer o brosesau gael eu creu, a bydd hyn yn rhan o ddarpariaeth ymsefydlu ar gyfer yr holl staff newydd ar ôl ei gwblhau.</p> <p>Mae'r carchar wedi diwygio'r polisi Cymhellion a Breintiau a Enillir, gan sicrhau bod yr holl staff a'r carcharorion yn ymwybodol o'r safonau disgwylidig o ran gofal ac ymddygiad.</p>	Llywodraethwr	Mehefin 2018
	Cydraddoldeb ac amrywiaeth			Llywodraethwr	Cwblhawyd
5.30	Dylid ymchwilio'n drylwyr i bob achos o wahaniaethu honedig. Dylai trefniadau sicrhau ansawdd fod yn effeithiol a dylent gynnwys craffu allanol. Dylid ymchwilio i gwynion safonol sy'n gwneud honiadau am wahaniaethu fel DIRFs. (2.24)	Cytunir	Cynhelir ymchwiliad trylwyr o bob achos o wahaniaethu, ac fe'u rhennir gyda'r Tîm Cydraddoldeb rhanbarthol er mwyn sicrhau gweithgarwch craffu annibynnol. Cynhelir ymchwiliad i bob cwyn sy'n honni gwahaniaethu trwy gyfrwng proses Ffurflen Adrodd am Ddigwyddiad Gwahaniaethu (DIRF). Bydd hyn yn cynnwys cael cyswllt gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (HMPPS) yng Nghymru, y Rheolwr Cydraddoldeb dros gyngor arbenigol a throsolwg. Bydd y Pennaeth Sicrwydd Busnes yn monitro hyn.	Llywodraethwr	Cwblhawyd
5.31	Dylid nodi anghenion penodol carcharorion sy'n meddu ar nodweddion gwarchoddedig, a rhoi sylw iddynt mewn ffordd systematig. (2.32)	Cytunir	<p>Pan fydd gan garcharorion anghenion a nodwyd, bydd y Pennaeth Lleihau Aildroseddu a'r Pennaeth Preswyllo a Gwasanaethau yn darparu Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad (IAG) ynghylch adrodd am anghydraddoldeb trwy gyfrwng system DIRF. Bydd y carchar yn sicrhau y darparir lefel briodol y cymorth trwy gyfrwng y ddedfryd warchodol. Caiff hyn ei gynorthwyo gan hyfforddiant i staff er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn deall eu dyletswyddau.</p> <p>Cyflogir cynrychiolwyr cydraddoldeb a byddant yn cael hyfforddiant digonol er mwyn eu galluogi i gynnig cymorth priodol a gweithgarwch cyfeirio cychwynnol i wasanaethau. Pan nodir angen yn Offeryn Sgrinio Dalfa Sylfaenol (BSCT) 1, sef CRC, bydd Saint Giles yn cyfeirio at wasanaethau cynorthwyol.</p> <p>Bydd CEM Abertawe yn cynnal Dadansoddiad o Anghenion Cydraddoldeb ac yn datblygu Cynllun Gweithredu er mwyn rhoi sylw i anghenion a nodir mewn ffordd systematig</p>	Llywodraethwr	Mehefin 2018
	Cwynion			Llywodraethwr	Ebrill 2018
				Llywodraethwr	Gorffennaf 2018

5.32	Dylid gweithredu prosesau cwynion mewn ffordd gyson a dylai rheolwyr sicrhau bod carcharorion yn cael ymatebion cwrtais ac sy'n cynnwys ffocws. (2.39)	Cytunir	<p>Ceir proses glir er mwyn sicrhau bod cwynion yn cael eu datrys o fewn yr amserlenni. Bydd y Dirprwy Lywodraethwr yn rhoi sylw i unrhyw ymatebion hwyr.</p> <p>Bydd y Pennaeth Sicrwydd Busnes yn monitro ffurflenni er mwyn sicrhau bod ymatebion yn briodol, yn gwrtais ac yn cynnwys ffocws. Bydd y Llywodraethwr, neu Ddirprwy addas, yn sicrhau ansawdd ymatebion i gwynion yn wythnosol.</p>	Llywodraethwr	Cwblhawyd
	Gwasanaethau iechyd				
5.33	Dylid pennu trefniadau llywodraethu clinigol ffurfiol er mwyn sicrhau darpariaeth gyson safonau priodol sy'n ymwneud â hyrwyddo iechyd, archwilio, atal heintiau, rheoli cwynion, ymgysylltu â charcharorion a goruchwyliaeth glinigol. (2.50)	Cytunir	<p>Mae Bwrdd Iechyd ABMU wedi ymrwymo i ddarparu llywodraethu clinigol cadarn ac effeithiol sy'n sicrhau bod safonau cyson a chynhwysfawr yn cael eu harddel mewn ffordd effeithiol ar draws gwasanaethau iechyd yn CEM Abertawe.</p> <p>Rhoddir sylw i hyn wrth i'r Arweinydd Gofal Iechyd yn CEM Abertawe barhau i fynychu cyfarfod Ansawdd a Diogelwch misol sy'n cynnwys y Bwrdd Iechyd Lleol cyfan. Fel rhan o'r cyfarfod hwn, adolygir safonau ar draws gwasanaethau iechyd cymunedol ac yn y ddalfa er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn CEM Abertawe yn bodloni'r ansawdd arfer gofynnol.</p> <p>Cefnogir hyn gan Fatrics Archwilio cynhwysfawr ar gyfer darpariaeth gofal iechyd yn y gymuned ac yn y ddalfa, a fydd yn pennu ac yn mesur arferion yn erbyn safonau cadarn mewn meysydd megis cwynion, hyrwyddo iechyd, goruchwyliaeth ac ymgysylltu.</p> <p>Yn ogystal, o fis Ionawr 2018, cynigiwyd Goruchwyllo Clinigol yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd. Bydd dwy nyrs sydd wedi cael hyfforddiant goruchwyllo ychwanegol yn cydweithio i hyrwyddo a gweithredu arfer goruchwyllo o fewn y tîm gofal iechyd ehangach.</p>	Llywodraethwr a Bwrdd Iechyd ABMU	<p>Ebrill 2018</p> <p>Ebrill 2018</p> <p>Ebrill 2018</p> <p>Cwblhawyd</p>
5.34	Dylid cofnodi a monitro ymatebion i argyfyngau meddygol fel mater o drefn er mwyn sicrhau y bodlonir safonau disgwylidig. Dylai offer dadebru fod ar gael yn yr adran gofal iechyd a dylid archwilio'r holl offer fel mater o drefn yn erbyn rhestrau safonedig. (2.51)	Cytunir	<p>Mae Bwrdd Iechyd ABMU yn sicrhau bod yr holl argyfyngau meddygol yn cael eu rheoli a'u monitro mewn ffordd effeithiol er mwyn sicrhau y darparir gofal digonol.</p> <p>Gweithredwyd system lle y caiff yr holl argyfyngau meddygol eu rhestru yn y dyddiadur trosglwyddo gofal iechyd. Mae'r Arweinydd Gofal Iechyd yn cadeirio cyfarfod wythnosol ynghylch digwyddiadau a meini prawf er mwyn rhestru achosion ar system DATIX GIG. Mae argyfyngau meddygol</p>	Bwrdd Iechyd ABMU	Cwblhawyd

			<p>yn rhan o'r cynnwys hwn. Mae'r Arweinydd Gofal Iechyd a'r Prif Nyrsys yn adolygu'r holl argyfyngau meddygol bob wythnos er mwyn monitro safonau a sicrhau y rhennir dysgu.</p> <p>Prynwyd pecynnau dadebru ychwanegol ac mae'r rhain yn barod i'w defnyddio yn y carchar yn Adain G, y Dderbynfa a Gofal Iechyd. Bydd yr Arweinydd Gofal Iechyd yn cael cyswllt â Chyllid a'r Bwrdd Iechyd er mwyn prynu pecyn dadebru ychwanegol ar gyfer yr Adran Gofal Iechyd.</p> <p>Bydd y Brif Nyrs Gofal Iechyd yn adolygu rhestr gyfeirio y pecyn dadebru fel bod lle i nodi dyddiadau ar y rhestr gyfeirio. Bydd hyn yn darparu llwybr archwilio, gan sicrhau bod y pecynnau yn addas i'w defnyddio.</p>		
5.35	Dylai carcharorion fod yn gallu cwyno am wasanaethau iechyd trwy gyfrwng system gyfrinachol a hysbysebwr yn dda, a dylai ymatebion roi sylw i'r holl faterion a godwyd. (2.52)	Cytunir	<p>Bydd Bwrdd Iechyd ABMU yn sicrhau bod cwynion yn cael eu casglu a'u hadolygu, ac y gweithredir yn eu cylch, mewn ffordd sensitif a chyfrinachol.</p> <p>Cytunwyd ar broses ar gyfer cwynion sy'n cynnwys y cam o'u huwchgyfeirio i'r Bwrdd Iechyd, a drafodir ac a argraffir ar yr holl ffurflenni cwyno mewn ffordd safonol. Cyflwynir proses newydd ar gyfer archwiliadau ansawdd ac adolygiadau er mwyn gwella'r broses o reoli ac ymateb i gwynion.</p>	Bwrdd Iechyd ABMU	Mai 2018
5.36	Dylai fod modd i garcharorion droi at ymyriadau hyrwyddo iechyd perthnasol yn hawdd, gan gynnwys cymorth di-fwg a'r holl raglenni sgrinio cymunedol perthnasol. (2.53)	Cytunir	<p>Mae CEM Abertawe wedi agor Canolfan Lles, sy'n cynnig ymyriadau hyrwyddo iechyd perthnasol i garcharorion. Mae hyn yn cynnwys cynnig mynediad i garcharorion i ddigwyddiadau a gweithgarwch hyrwyddo Iechyd a Lles trwy weithio mewn partneriaeth ag Iechyd a Gwasanaethau Allweddol eraill. Mae'r gwasanaethau yn cynnwys y canlynol ar hyn o bryd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymorth di-fwg gan ddarparwr gofal iechyd a Dyfodol trwy gyfrwng sesiynau cymorth wythnosol. • Cyflogi Cydlynnydd Iechyd a Lles pwrpasol trwy gyfrwng gwasanaeth Dyfodol. Digwyddiadau Iechyd a Lles • Rhaglenni cymorth campfa. • Mynediad i Therapi Disodli Nicotin (NRT), a dyfeisiau e-smygu ar ôl cyrraedd. • IAG am gymorth NRT o Sgriniwr Derbyn cychwynnol gan Ofal Iechyd. • IAG gan Hyrwyddwyr Di-fwg. <p>Ceir tîm rhanbarthol yng Nghymru sydd wedi datblygu llwybr</p>	Llywodraethwr	Cwblhawyd

			<p>di-fwg newydd. Mae Dim Smygu Cymru wedi bod yn rhan o'r cyfarfodydd a fu'n ystyried ymyrraeth.</p> <p>Bydd yr Arweinwyr Gofal Iechyd yn datblygu grŵp llywio hyrwyddo iechyd erbyn mis Ebrill 2018, gyda'r nod o ailgychwyn cyfarfodydd yn gynnar yn ystod y flwyddyn hon. Bydd hyn yn cynnwys datblygu calendr hyrwyddo iechyd er mwyn sicrhau y caiff yr ymgyrchoedd hyn eu hyrwyddo ar draws y carchar a'r adran Gofal Iechyd.</p> <p>Bydd CEM Abertawe yn cynnal adolygiad chwarterol yn canolbwyntio ar iechyd a lles er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth, gan feithrin partneriaethau gyda sefydliadau a darparwyr cymunedol eraill er mwyn gwella arfer gorau. Arweinir hyn ar y cyd gan y carchar a'r Bwrdd Iechyd Lleol.</p>		Ebrill 2018
					Ebrill 2018
5.37	Dylid lleihau'r amser aros i weld yr optegydd er mwyn sicrhau bod carcharorion yn cael gofal amserol. (2.58, Ailadroddwyd argymhellid 2.58)	Cytunir	Mae Bwrdd Iechyd ABMU yn gyfrifol am ddarpariaeth optegydd yn CEM Abertawe. Mae'r Llywodraethwr wedi gofyn am adolygiad ffurfiol o'r gwasanaeth optegydd, gan gynnwys adolygiad o'r amser aros am wasanaethau a neu unrhyw waith ataliol neu hyrwyddo iechyd y dylid ei gwblhau. Gwnaethpwyd y cais hwn ym mis Tachwedd ac mae'r carchar yn aros am ddiweddariad yn ystod cyfarfod nesaf y bwrdd partneriaeth. Mae'r adolygiad ar fin cael ei gwblhau (Gorffennaf 2018).	Bwrdd Iechyd ABMU	Gorffennaf 2018
5.38	Dylid adolygu capasiti tîm y fferyllfa fel bod y tîm yn gallu darparu clinigau adolygu defnydd o feddyginiaethau a gwasanaethau eraill er mwyn gwella gofal a chanlyniadau carcharorion. (2.63)	Cytunir	Mae Bwrdd Iechyd ABMU yn gyfrifol am y ddarpariaeth fferyllfa yn CEM Abertawe ac mae wedi ymrwymo i ddarparu gofal cleifion o safon uchel. Cynhaliwyd adolygiad o'r adnodd fferyllfa, ac yr adeg y cyflwynir y Cynllun Gweithredu hwn, mae'r ddarpariaeth yn gweithredu hyd eithaf ei allu. Adolygir hyn bob chwarter er mwyn sicrhau bod adnodd digonol i fodloni anghenion y carchar.	Bwrdd Iechyd ABMU	Cwblhawyd ac yn Parhau
5.39	Dylid darparu cyfleusterau er mwyn caniatáu storio meddyginiaethau mewn meddiant mewn ffordd ddiogel. (2.64)	Cytunir	Bydd y carchar yn darparu cabinetau cloadwy i'r carcharorion er mwyn storio meddyginiaethau y bernir eu bod yn addas eu bod yn eu meddiant.	Llywodraethwr	Gorffennaf 2018
5.40	Dylid rheoli a goruchwyllo pob rownd feddyginiaeth er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu nodi'n gywir, bod cyfrinachedd cleifion yn cael ei ddiogelu a bod meddyginiaethau yn cael eu rhoi ar adegau therapiwtig. (2.65)	Cytunir yn Rhannol	<p>Mae Bwrdd Iechyd ABMU wedi ymrwymo i sicrhau y rhoddir meddyginiaethau mewn ffordd effeithiol ac a reolir yn dda, sy'n cefnogi nodau cyffredinol CEM Abertawe ac sy'n parhau cyfrinachedd cleifion.</p> <p>Bydd cronfa ddata iechyd System Un yn cael ei harchwilio bob mis gan y prif nyrsys er mwyn sicrhau bod ffotograffau</p>	Bwrdd Iechyd ABMU	Ebrill 2018
				Bwrdd Iechyd ABMU	Ebrill 2018

			<p>adnabod cleifion yn cael eu lanlwytho i'w ffeiliau personol. Mae pob carcharor wedi cael bathodynau adnabod gan staff y carchar, a fydd yn cynorthwyo'r broses adnabod er mwyn rhoi meddyginiaeth. Bydd y Brif nyrs Gofal Iechyd yn archwilio System Un bob mis er mwyn gwirio bod lluniau cleifion ar y sgrin a bod y nyrs sy'n cyflenwi yn archwilio'r manylion adnabod.</p> <p>O ran rhoi meddyginiaeth, Cytunir yn Rhannol gyda'r rhan hon o'r argymhelliad. Bydd yr Arweinydd Gofal Iechyd yn adolygu'r diwrnod craidd a'r gyfundrefn er mwyn sicrhau bod amseroedd meddyginiaeth yn cael eu hamserlennu mewn ffordd briodol, fodd bynnag, nid oes modd rhoi meddyginiaethau ar adegau therapiwtig bob amser.</p>	Bwrdd Iechyd ABMU	Ebrill 2018
5.41	Dylid cytuno ar y contract gwasanaeth ar gyfer deintyddiaeth, a'i roi allan i dendr cyn gynted ag y bo modd er mwyn sicrhau bod carcharorion yn gallu manteisio mewn ffordd amserol ar wasanaethau iechyd deintyddol a lywodraethir mewn ffordd briodol. Yn arbennig, dylid rhoi blaenoriaeth i drin dynion mewn gofid a phoen aciwt. (2.68)	Cytunir	<p>Ar hyn o bryd, nid oes contract gwasanaeth mewn grym ar gyfer deintyddiaeth yn CEM Abertawe. Mae Bwrdd Iechyd ABMU yn gyfrifol am y ddarpariaeth Deintyddiaeth yn CEM Abertawe a bydd yn gweithio gyda'r Llywodraethwr er mwyn sicrhau bod gwasanaethau deintyddol effeithiol ac amserol mewn grym.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn archwilio dewisiadau mewn perthynas â Gwasanaethau Deintyddol ac mae'n disgwyl y bydd darparwr yn ei le erbyn mis Mehefin 2018. Bydd y contract hwn yn cynnwys darpariaethau priodol ynghylch gofynion gofal brys. Nes bydd y contract mewn grym, caiff dynion mewn gofid a phoen eu trin o fewn y ddarpariaeth gyfredol.</p>	Bwrdd Iechyd ABMU	Mehefin 2018
5.42	Dylai pob claf sy'n dioddef cyflwr iechyd meddwl fod yn gallu manteisio mewn ffordd amserol ar amrediad o ymyriadau sy'n bodloni eu hanghenion a nodwyd. (2.73)	Cytunir	<p>Mae Bwrdd Iechyd AMBU yn gyfrifol am iechyd meddwl sylfaenol a chymorth clinigol, a bydd yn parhau i ddarparu pum prif glinig iechyd meddwl gyda phum sesiwn bore unigol wythnosol. Mae niferoedd da yn mynychu'r clinigau. Mae un nyrs wedi cael hyfforddiant Therapi Ymddygiadol Gwybyddol. Nod gweithgarwch cynllunio'r gweithlu yw darparu hyfforddiant ymyriadau ar gyfer gwaith iechyd meddwl i staff. Bydd y Brif Nyrs Iechyd Meddwl yn adolygu llwybrau cyfeirio cyfredol bob chwarter fel rhan o gyfarfod ffurfiol gyda darparwyr mewngymorth. Bydd hyn yn sicrhau y bodlonir anghenion cleifion ac y gwneir cyfeiriadau effeithiol i wasanaethau iechyd meddwl. Yn ogystal, mae CEM Abertawe wedi ehangu ymyriadau a chymorth anghlinigol ehangach er mwyn cynorthwyo lles ac iechyd ehangach y carcharorion a gaiff eu dal. Gweithredir hyn trwy ddefnyddio</p>	Bwrdd Iechyd ABMU	Cwblhawyd

			cwnsela, Canolfan Lles a'r Cydlynnydd Iechyd a Lles. Bydd y Ganolfan Lles yn manteisio ar bartneriaethau o garchardai a darparwyr cymunedol er mwyn darparu gwasanaethau cymorth ar y cyd â gwasanaeth camddefnyddio sylweddau Dyfodol.		
	Arlwyo				
5.43	Ni ddylid gweini cinio cyn hanner dydd a dylai'r pryd hwyr fod gyda'r hwyr. (2.79)	Cytunir	Bydd CEM Abertawe yn sicrhau y gweinir y cinio a'r pryd gyda'r hwyr ar adegau priodol yn ystod y dydd. Cynhelir ymarfer ail-broffilio llawn gyda gweithrediad Rheoli Troseddwy'r yn y Ddalfa, gan gynnwys adolygiad o amseriadau'r diwrnod craidd. Mae PSI 44/2010 Arlwyo ar gyfer Carcharorion a'r Llawlyfr Gweithredol cyfatebol yn cynnwys amserau awgrymedig er mwyn gweini prydau. Bydd CEM Abertawe yn sicrhau ei fod yn gweithredu o fewn yr amserau hyn.	Llywodraethwr	Gorffennaf 2018
	Pryniannau				
5.44	Ni ddylid codi ffi weinyddol ar garcharorion am eitemau catalog (2.81, argymhelliad a ailadroddir 2.89)	Cytunir	Cwblhawyd hyn a gwaredwyd y ffi weinyddol am archebion catalog o 1 Rhagfyr 2017	Llywodraethwr	Cwblhawyd
	Amser allan o'r gell				
5.45	Dylai carcharorion gael cyfundrefn sy'n cynnwys cyswllt dyddiol ac o leiaf awr yn yr awyr agored. (3.3)	Nis Cytunir	Mae Polisi Cenedlaethol PSI 75/2011, Gwasanaethau Preswyl yn nodi y dylai carcharorion gael o leiaf 30 munud yn yr awyr agored bob dydd. Mae'r ddarpariaeth hon yn orfodol, yn unol â'r tywydd a'r angen i gynnal disgyblaeth a threfn dda. Ni cheir gofyniad i ddarparu 1-awr neu fwy na 30 munud. Bydd CEM Abertawe yn sicrhau bod carcharorion yn cael amser digonol a rheolaidd allan o'u celloedd, gan gynnwys amser digonol i gael cawod a chwblhau tasgau domestig, i gael cyswllt â'i gilydd ac i gael o leiaf 30 munud yn yr awyr agored.	Llywodraethwr	
	Dysgu a sgiliau a gweithgareddau gwaith				

5.46	Dylai rôl y ddarpariaeth dysgu a sgiliau wrth leihau trosedd fod yn rhan ganolog o weledigaeth strategol y carchar. (3.12)	Cytunir	<p>Bydd y Pennaeth Lleihau Aildroseddu yn datblygu Strategaeth Lleihau Aildroseddu a fydd yn cyfuno pwysigrwydd dysgu a sgiliau o fewn gweledigaeth strategol y carchar. Gwneir y gorau o gyfundrefn y carchar er mwyn sicrhau bod carcharorion yn mynychu gwaith perthnasol yn rheolaidd, sy'n eu helpu i symud i gyflogaeth pellach, addysg a/neu hyfforddiant, wrth iddynt ailsefydlu yn y gymuned.</p> <p>Bydd y Pennaeth Dysgu a Sgiliau yn gyfrifol am greu Canolfan Gweithgarwch newydd a fydd yn cynnig sylfaen i'r perthnasoedd rhwng Dysgu a Sgiliau a'r holl weithgareddau eraill yn y carchar, a bydd ffocws cynyddol ar ymgorffori dysgu o fewn diwydiannau a gweithgarwch cyflogaeth ar draws y carchar.</p> <p>Bydd CEM Abertawe yn cynorthwyo amcanion y Cynllun Datblygu Ansawdd Dysgu a Sgiliau, a Chynllun Gweithredu HMIP. Bydd Dysgu a Sgiliau yn creu'r cworwm allweddol ar draws yr holl gyfarfodydd Lleihau Aildroseddu, er mwyn hyrwyddo cydweithio gyda'r carchar a phartneriaid cymunedol.</p>	Llywodraethwr	Ebrill 2018
5.47	Dylai rheolwyr sicrhau bod cynnydd cyflym yn cael ei wneud wrth gyflawni'r amcanion yng nghynllun datblygu ansawdd y carchar. Dylid defnyddio data mewn ffordd effeithiol er mwyn cyfrannu at welliannau mewn gweithgarwch i gynllunio'r cwricwlwm, ansawdd a pherfformiad. (3.13)	Cytunir	<p>Bydd y Pennaeth Lleihau Aildroseddu a'r Arweinydd Clwstwr Dysgu a Sgiliau yn cynnig trosolwg i sicrhau bod ymateb cyflym i'r Cynllun Datblygu Ansawdd (QDP) yn cael ei ymgorffori er mwyn gweithredu prosiectau. Mae Pennaeth Dysgu a Sgiliau newydd wedi cael ei recriwtio i gynorthwyo gyda hyn, a byddant yn y swydd erbyn mis Ebrill 2018.</p> <p>Bydd CEM Abertawe yn darparu ymatebion i'r Tîm Rheoli Uwch (SMT) a'r comisiynwyr rhanbarthol bob dau fis ynghylch y cynnydd yn erbyn y QDP, a'r gwaith gweithredu ar brosiectau er mwyn cefnogi amcanion y carchar. Gweithredir System Gwybodaeth Reoli (MIS) newydd er mwyn sicrhau y cesglir ac y dadansoddir data cadarn a defnyddiol i gynorthwyo gweithgarwch cynllunio'r cwricwlwm a pherfformiad. Defnyddir data Gwybodaeth y Farchnad Lafur (LMI) fesul rhanbarth er mwyn cyfrannu at y cwricwlwm addysg a'r holl weithgareddau pwrpasol a gynigir ar draws y sefydliad.</p>	Llywodraethwr	Mai 2018 Ebrill 2018
5.48	Dylai rheolwyr sicrhau bod anghenion dysgu athrawon yn cael eu hasesu mewn ffordd briodol a'u bod yn cael cyfleoedd i wella'u sgiliau. (3.22)	Cytunir	Mae CEM Abertawe wedi ymrwmo i sicrhau bod athrawon yn cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau. Bydd y Pennaeth Dysgu a Sgiliau/Lleihau Aildroseddu yn sicrhau bod Adroddiad Perfformiad a Datblygiad Staff (SPDR) ac adolygiadau perfformiad yn amlinellu amcanion ar gyfer datblygiad	Llywodraethwr	Mai 2018

			<p>personol a phroffesiynol. Bydd anghenion dysgu athrawon yn cyd-fynd â chynlluniau datblygu cwricwlwm ac ansawdd ac fe'u hystyrir yn erbyn cyfyngiadau cyllidebol ac o ran adnoddau.</p> <p>Bydd y Pennaeth Dysgu a Sgiliau yn gweithredu cynllun datblygu ansawdd er mwyn gwella ansawdd addysgu, a bydd canlyniadau arsylwadau gan gymheiriaid ac eraill yn nodi anghenion dysgu a hyfforddiant er mwyn gwella perfformiad. Disgwylir y bydd cyllideb benodedig er mwyn uwchsgilio athrawon, fel rhan o welliannau perfformiad ansawdd.</p>		
5.49	Dylai athrawon ddarparu sesiynau wedi'u cynllunio'n dda, sy'n bodloni anghenion dysgu unigol carcharorion. (3.23)	Cytunir	<p>Bydd y Pennaeth Lleihau Aildroseddu yn gweithredu Cynllun dysgu Unigol newydd er mwyn unigoleiddio taith ddysgu pob carcharor, gyda thargedau dysgu yn y ddalfa yn cyd-fynd â chyflogaeth wrth eu rhyddhau a/neu drosglwyddo i sefydliadau Categori C/D.</p> <p>Gweithredir yr archwiliadau sicrhau ansawdd a rheolaeth ar lefel leol a rhanbarthol. Yn y carchar, law yn llaw â dadansoddiad cadarn o bob cwrs, defnyddio'r MIS newydd i gyfrannu at adolygiadau perfformiad a chymau gweithredu law yn llaw â dull gweithredu arsylwi gwersi cadarn. Bydd dull wedi'i adfywio tuag at sicrwydd rhanbarthol, dysgu a sgiliau yn cyd-fynd â hyn trwy gynnig archwiliadau rheolaidd a chynhwysfawr wedi'u seilio ar ddisgwyliadau Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) yn uniongyrchol.</p>	Llywodraethwr	Mai 2018
5.50	Dylai carcharorion fod yn gallu cyflawni ystod eang o ddysgu achrededig a chael cyfleoedd i symud ymlaen i lefelau uwch. (3.30)	Cytunir yn Rhannol	<p>Mae CEM Abertawe yn cydnabod pwysigrwydd carcharorion yn gallu cyflawni amrediad o raglenni dysgu achrededig er mwyn datblygu eu dysgu a'u sgiliau. Mae'r dilyniant i gyrsiau ar lefel uwch ar gael trwy gyfrwng yr Ymddiriedolaeth Addysg Carcharorion a thrwy'r Brifysgol Agored. Mae'r Dilyniant yn ffrydio o Fynediad 1 i Lefel 2 y Brifysgol Agored.</p> <p>Bydd rhaglen Swyddi Gwell, Dyfodol Gwell yn cynnig llwybrau dilyniant i ddysgwyr i hyfforddiant a dysgu ar lefel uwch ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Bydd CEM Abertawe yn parhau i ymgorffori cymwysterau CGC mewn gweithdai trwy gyfrwng N-ergy ar lefelau 1 a 2, a hefyd, bydd CGC Gwasanaeth Cwsmeriaid newydd yn dod ar-lein trwy gyfrwng canolfan alwadau Data Cyfrifiad (Mawrth 18).</p> <p>Bydd y cyfleoedd i sicrhau dilyniant ar gael ar draws y</p>	Llywodraethwr	Mehefin 2018

			fframwaith Sgiliau Hanfodol hefyd, wrth weithredu Canolfan WEST ac ymgorffori sgiliau hanfodol cyd-destunol mewn gweithgareddau gweithdy.		
5.51	Dylai rheolwyr sicrhau bod yr holl garcharorion yn gallu troi at y lyfrgell yn rheolaidd. (3.35)	Cytunir	<p>Mae CEM Abertawe wedi ymrwymo i ddarparu mynediad rheolaidd i'r Lyfrgell. Mae hyn yn rhan o'r gyfundrefn ar gyfer pob gweithiwr amser llawn, a chaiff slotiau eu neilltuo i weithwyr rhan-amser er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael mynediad digonol.</p> <p>Mae Desg Wybodaeth Carcharorion ym mhob adain yn coladu rhestrau o'r rhai sy'n dymuno mynychu'r Lyfrgell a chyhoeddir amseroedd agor ym mhob adain er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth. Caiff eiriolaeth ei gynorthwyo ymhellach gan ddau o gymheiriaid llyfrgell ym mhob uned breswyl fawr. Lleolir y Lyfrgell yn y brif uned Dysgu a Sgiliau, fel bod modd i fyfyrwyr a'r rhai sy'n astudio am gymwysterau dysgu o bell droi ati yn ôl yr angen. Yn ogystal, ceir gwasanaeth allgymorth wythnosol i'r holl weithgareddau oddi ar yr adain, lle y bydd rheolwr y Lyfrgell a dau o gymheiriaid yn casglu, yn cyhoeddi ac yn delio â cheisiadau am lyfrau.</p>	Llywodraethwr	Cwblhawyd
	Rheoli adsefydlu mewn ffordd strategol				
5.52	Dylai staff ym mhob adran, gan gynnwys staff preswyl a staff Ymddiriedolaeth St Giles, gydweithio mewn ffordd effeithiol er mwyn sicrhau y bodlonir anghenion adsefydlu ac ailsefydlu carcharorion. Yn arbennig, dylai asiantaethau adrodd i Ymddiriedolaeth St Giles am ganlyniadau cyfeiriadau bob amser, er mwyn sicrhau cynllunio ailsefydlu parhaus effeithiol. (4.6)	Cytunir	<p>Bydd y Pennaeth Lleihau Aildroseddu yn sicrhau bod gan y carchar Strategaeth Lleihau Aildroseddu gadarn a fydd yn amlinellu mewn ffordd gynhwysfawr sut y bydd y carchar yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn galluogi gweithgarwch i adsefydlu ac ailsefydlu pobl yn CEM Abertawe mewn ffordd lwyddiannus.</p> <p>Mae'r carchar yn cynnal cyfarfodydd ailsefydlu misol, a gadeirir gan y Pennaeth Lleihau Aildroseddu, sy'n dwyn ynghyd staff o unedau preswyl, Ymddiriedolaeth St Giles ac adrannau a phartneriaid eraill. Defnyddir y fforwm hwn er mwyn sicrhau bod gwaith adsefydlu ac ailsefydlu yn cael ei gydlynu mewn ffordd effeithiol, bod partneriaid yn cydweithio'n dda a bod gan Ymddiriedolaeth St Giles y wybodaeth y mae angen iddynt ei chael er mwyn gwneud gwaith cynllun ailsefydlu effeithiol.</p> <p>Bydd Cyfarwyddwr Carchardai'r Sector Cyhoeddus a'u tîm yn cynnwys gwaith cynllunio adsefydlu ac ailsefydlu o fewn</p>	Llywodraethwr	Ebrill 2018

			cwmpas eu hymweliadau sicrwydd rheolaidd, er mwyn darparu haen ychwanegol o weithgarwch monitro yn erbyn y cam gweithredu hwn.		
5.53	Dylid datblygu cysylltiadau gyda sefydliadau cymunedol sy'n gallu cyfrannu at waith ailsefydlu. (4.7)	Cytunir	<p>Mae'r Pennaeth Lleihau Aildroseddu yn gwella'r ddarpariaeth gymunedol fel rhan o'r strategaeth Lleihau Aildroseddu. Mae CEM Abertawe yn adolygu ac yn ymgysylltu â phartneriaid cymunedol presennol a newydd yn barhaus. Bydd hyn yn atgyfnerthu gwasanaethau megis gwasanaethau lleo, camddefnyddio sylweddau a gwasanaeth adfer a gwasanaethau allweddol ar gyfer y rhai sy'n ddigartref ac y byddant yn ddigartref.</p> <p>Bellach, estynnir gwahoddiad i bartneriaid cymunedol fynychu cyfarfod strategaeth Cymunedau bob dau fis fel rhan o'r agenda ymgynghori ynghylch Lleihau Aildroseddu. Mae prosiectau cymunedol eisoes yn cael eu cyflawni, ac mae gweithdy 1 yn cynnal prosiect i greu ffens ar gyfer prosiect cymunedol lleol y Vetch. Mae prosiect Swyddi Gwell, Dyfodol Gwell yn cynnig cyswllt cymunedol, Trwy'r Giât (TTG) ar gyfer carcharorion sy'n dilyn llwybr cymorth gyrfa a chyflogaeth trwy safle Coleg Gŵyr yng Nghanolfan Kingsway, Canol Dinas Abertawe. Yn ogystal, mae Ymwelwyr Iechyd yn darparu sesiynau i garcharorion ynghylch cwrs Rhianta Cadarnhaol ac yn ymuno â'r grwpiau Babanod a Phlant Bach fel rhan o gymorth llwybr Teuluoedd a Phlant. Cychwynnodd y trefniant cydweithio hwn rhwng CEM Abertawe, PACT a Bwrdd Iechyd ABMU ym mis Ionawr. Cynhelir adolygiad chwarterol er mwyn mesur effeithiolrwydd y darpariaethau hyn.</p>	Llywodraethwr	<p>Mehefin 2018</p> <p>Cwblhawyd</p>
	Rheoli a chynllunio ar gyfer troseddwr				
5.54	Dylid hyfforddi a goruchwyllo goruchwylwyr troseddwr mewn ffordd briodol. Dylid sicrhau bod trefniadau sicrhau ansawdd effeithiol o'u gwaith yn bodoli. (4.16)	Cytunir	Bydd Pennaeth yr Uned Rheoli Troseddwr yn sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant priodol a'u bod yn meddu ar y sgiliau i gyflawni eu swyddi. Bydd ymarfer ail-broffilio o'r sefydliad a gynhelir fel rhan o'r Model Rheoli Troseddwr yn y Ddalfa yn adfywio'r dull er mwyn goruchwyllo troseddwr, gan gynnwys trwy greu rôl Rheolwr Troseddwr Carchar newydd. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant digonol ar gyfer eu rôl. Bydd Pennaeth yr Uned Rheoli Troseddwr a'r Swyddog Prawf Uwch yn cynnal proses sicrhau ansawdd o rôl y Rheolwr Troseddwr Carchar.	Llywodraethwr	Gorffennaf 2018

5.55	Dylid cyfeirio achosion yn brydlon i'r tîm rheoli risg rhyngadrannol a dylid monitro cynlluniau gweithredu er mwyn sicrhau bod pob cam yn cael ei gwblhau. (4.20)	Cytunir	Bydd Pennaeth yr Uned Rheoli Troseddwy'r yn sicrhau bod achosion yn cael eu cyfeirio'n brydlon at y Tîm Rheoli Risg Rhyngadrannol (IRMT), gyda dull gweithredu safonol tuag at gofnodi a monitro camau gweithredu. Mae'r IRMT yn cyfarfod bob mis gyda phob rhanddeiliad, gan wahodd Staff Prawf Cenedlaethol allanol i fynychu. Mae'r Pennaeth Rheoli Troseddwy'r yn monitro'r camau gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfod, gan adrodd i'r Dirprwy Lywodraethwr.	Llywodraethwr	Cwblhawyd
5.56	Dylai fod cymorth priodol ar gyfer carcharorion dedfrydau amhenodol. Dylid trosglwyddo'r rhai y mae angen iddynt fynychu rhaglen ymddygiad troseddu nad yw ar gael yn Abertawe i garchar priodol yn brydlon. (4.24)	Cytunir	<p>Mae HMPPS a'r Bwrdd Parôl yn goruchwyllo darpariaeth cynllun gweithredu ar y cyd, sy'n cynnwys amrediad o fesurau a gynlluniwyd i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer carcharorion IPP. Mae carcharorion IPP yn parhau i gael eu cynnwys ymhlith grwpiau blaenoriaeth er mwyn cael ymyriadau. Nid oes yn rhaid i IPPs gwblhau rhaglenni ymddygiad troseddu achrededig er mwyn cael eu rhyddhau.</p> <p>Mae gan CEM Abertawe broses mewn grym sy'n sicrhau y nodir anghenion carcharorion IPP. Yna, caiff y carcharorion eu neilltuo i raglen ymddygiad troseddu briodol ar sail eu hanghenion. Pan fydd gofyn cael rhaglen nad yw ar gael yn Abertawe, hysbysir uned symudiadau carcharorion HMPPS a gofynnir am drosglwyddiad ar gyfer y carcharor. Mae'r cafeat hwn yn ddibynnol iawn ar y sefydliad y cyfeirir iddynt yn derbyn y trosglwyddiad.</p> <p>Mae HMPPS yng Nghymru wedi sefydlu panel cyn-rhyddhau IPP, lle yr adolygir achosion sydd dros y tariff ac y maent mewn amodau caeëdig o hyd yn yr ail wrandawriad parôl, gyda staff gweithredol, seicoleg a diogelu'r cyhoedd. Nod y panel yw gwaredu atalfeydd trwy'r system er mwyn sicrhau bod y carcharorion yn manteisio ar y pethau cywir ar yr adeg gywir er mwyn eu helpu i sicrhau cynnydd. Yn ogystal, gwahoddir y carcharorion i'r paneli hyn fel eu bod yn deall y camau y mae angen iddynt eu cymryd er mwyn sicrhau cynnydd trwy'r system.</p>	<p>Cyfarwyddwr Gweithredol HMPPS Cymru</p> <p>Llywodraethwr</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
	Cynllunio ail-integreiddio				
5.57	Dylid adnewyddu'r safle ymweliadau er mwyn cynnig amgylchedd croesawgar a dylid adleoli'r bythau ymweliadau caeëdig o olwg y brif safle ymweliadau. (4.43)	Cytunir yn Rhannol	Mae'r ardal ymweliadau wedi cael ei hadnewyddu'n rhannol trwy osod carped newydd a safle chwarae newydd yno. Mae dodrefn newydd yn cael ei drefnu, a fydd yno erbyn yr Haf 2018. Bydd hyn yn creu amgylchedd mwy cadarnhaol a chroesawgar, sy'n cynorthwyo diwylliant adsefydlu.	Pennaeth Gweithrediadau	Awst 2018

			Ni all y carchar adleoli'r bythau ymweliadau caeëdig am resymau ymarferol. Cytunir yn Rhannol gyda'r rhan hon o'r argymhelliad.		
--	--	--	---	--	--

Argymhellion	
Cytunir	48
Cytunir yn Rhannol	7
Nis Cytunir	2
Cyfanswm	57